CBAC TGAU Daearyddiaeth Ionawr 2019

Blwyddyn Newydd Dda! Gobeithio bod Asesiad Di-arholiad Uned 3 wedi mynd yn dda, edrychwn ymlaen at eu derbyn yn ein swyddfa yn Nhrefforest yn barod i'w marcio. Roedd yn wych cyfarfod gymaint o ddaearyddwyr brwdfrydig yn ystod digwyddiadau DPP yr Hydref.

Uned 3 – Asesu di-arholiad

- Sicrhewch fod yr holl Asesiadau Di-arholiad wedi'u dychwelyd i CBAC ac e-bostiwch eich Datganiad Gwaith Maes a Datganiad y Ganolfan at Steve James steve.james@wjec.co.uk
- Mae'r Canllawiau ar gyfer cyfres 2020 ar gyfer 'Trawsluniau' a 'Chylch Dylanwad' bellach ar gael ar y wefan.
- Dulliau Asesu Di-arholiad ar gyfer cyfresi'r dyfodol

Cyfres Arholiadau	Methodoleg	Fframwaith Cysyniadol
2020 (Asesu Di-arholiad i ddigwydd Tach/Rhag 2019)	Trawsluniau	Cylch Dylanwad
2021 (Asesu Di-arholiad i ddigwydd Tach/Rhag 2020)	Llifoedd Daearyddol	Lliniaru Risg

DPP

- Mae'r holl adnoddau o'r digwyddiadau DPP bellach ar gael ar y wefan. Ewch i'r adran 'Deunyddiau Hyfforddi' ar y dudalen Daearyddiaeth.
- Ar gyfer Asesiad Di-arholiad Uned 3, cyhoeddwyd Gweminar a dogfen Cwestiynau Cyffredin ym mis Medi ac maent i'w gweld yma.

Adolygu Arholiadau Ar-lein

- Mae'r Adolygu Arholiadau Ar-lein (OER) yn gasgliad o unedau rhyngweithiol sy'n cyfuno nifer o elfennau yn cynnwys data cyffredinol, cwestiynau arholiadau, eu cynlluniau marcio a sylwadau gan arholwyr, fydd yn eich arwain drwy adolygiad o gwestiynau arholiad penodol.
- Sicrhewch eich bod yn darllen y cyfarwyddiadau ar y dudalen gartref ac yn defnyddio Adobe Acrobat DC i edrych ar y dogfennau.

Adnoddau Digidol

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych yn rheolaidd ar y wefan Adnoddau Addysgol Digidol wrth i ni ychwanegu mwy o ddeunyddiau i gefnogi eich addysgu. Mae'r adnodd diweddaraf i'w gyhoeddi yn ymwneud ag ecosystemau Coedwigoedd Glaw Trofannol. Mae nifer o adnoddau eraill ar y wefan hon i gefnogi addysgu a dysgu.

Y Gymdeithas Ddaearyddol

- Mae'r cwis WelshWise yn cael ei gynnal ym mis Chwefror. Mae'n gyfle gwych i gael Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9 i gymryd rhan cyn dewis eu hopsiynau. Mae'r cwisiau blaenorol hefyd ar wefan y Gymdeithas Ddaearyddol a gellir eu defnyddio yn y dosbarth.

- Cynhelir Cynhadledd y Gymdeithas Ddaearyddol ym Manceinion rhwng 9 ac 11 Ebrill 2019. Mae'n gyfle gwych am DPP gyda syniadau addysgu cyfoes gan arbenigwyr pwnc mewn dros 100 o ddarlithoedd, gweithdai, sesiynau Athro i Athro ac ymweliadau maes.

Cysylltu â Daearyddiaeth CBAC

Oes angen help, cefnogaeth neu arweiniad arnoch chi? Cysylltwch â ni ar: TGAUDaearyddiaeth@cbac.co.uk